COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN MICROSOFT TEAMS DYDD MERCHER, 24 CHWEFROR 2021, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd KJ Watts – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | TH Beedle | JPD Blundell |
| NA Burnett | MC Clarke | N Clarke | RJ Collins |
| HJ David | P Davies | PA Davies | SK Dendy |
| DK Edwards | J Gebbie | T Giffard | RM Granville |
| CA Green | DG Howells | A Hussain | RM James |
| B Jones | M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | CE Smith | SG Smith | JC Spanswick |
| RME Stirman | G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE |
| E Venables | SR Vidal | MC Voisey | LM Walters |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

503. DATGANIADAU DIDDORDEB

Dim.

504. CADARNHAU COFNODION

CYTUNWYD: Fod Cofnodion cyfarfod y Cyngor 20 Ionawr 2021, i'w derbyn fel cofnod cywir.

505. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER.

Dechreuodd y Maer ei gyhoeddiadau drwy ddatgan ei fod yn gobeithio bod yr holl Aelodau a'r Swyddogion yn cadw'n ddiogel ac yn iach.

Eglurodd er iddo fod yn ymbellhau'n gymdeithasol yn sgil y pandemig cyfredol ac felly heb allu mynychu unrhyw ddigwyddiadau, cafodd yr anrhydedd o recordio neges a chynnau cannwyll er cof fel rhan o ddiwrnod cofio'r holocost blynyddol Cyngor Pen-y-bont a gynhaliwyd yn rhithiol eleni. Fel yr oedd y rhai oedd yn bresennol yn ymwybodol, digwydd Diwrnod Cofio'r Holocost ar 27 Ionawr bob blwyddyn, dyddiad sy'n dwyn i gof y diwrnod yn 1945 pan oresgynnodd lluoedd y cynghreiriaid Auschwitz-Birkenau gan ryddhau'r carcharorion.

Roedd yn ddiwrnod i goffáu'r miliynau o bobl a laddwyd yn ystod yr Holocost, dan Erledigaeth y Natsïaid a'r hil-laddiad a ddigwyddodd wedyn yn Cambodia, Rwanda, Bosnia a Darfur gan ein hatgoffa i fod yn fythol effro rhag erledigaeth a gwahaniaethiad o bob math.

506. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD.

Cyhoeddodd yr Arweinydd y gallai fod gan yr Aelodau ddiddordeb i wybod fod dros 126,300 o frechiadau bellach wedi eu rhoi ar hyd a lled rhanbarth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

O safbwynt Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, mae dros 37,300 o bobl wedi derbyn o leiaf un dogn o'r brechiad.

Dyma newyddion ardderchog, ac yn dra gwahanol i'n sefyllfa flaenorol, a ninnau'n un o'r ardaloedd a effeithiwyd waethaf drwy Gymru gyfan.

Er gwaetha'r ffaith fod y sefyllfa wedi gwella, mae'n bwysig cofio fod 38 o bobl yn gwella o Covid-19 ar hyn o bryd yn Ysbyty Tywysoges Cymru.

Mae'r ffigyrau diweddaraf ar gyfer Cwm Taf yn cadarnhau fod 16 o'n trigolion yn dal i frwydro yn erbyn y salwch yno, tri ohonynt yn derbyn gofal dwys, felly mae'n bwysig ein bod yn dal yn effro i beryglon y salwch.

Mae Aelodau'n ymwybodol o'r ffaith fod blaenoriaethu grwpiau ar gyfer y rhaglen frechu yn digwydd dan arweiniad y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio ar hyd a lled y DU.

Dylai unrhyw un sydd o fewn y pedwar grŵp cyntaf sy'n pryderu am nad ydynt wedi derbyn apwyntiad ar gyfer eu dogn gyntaf ffonio 01443 562 264 neu lenwi ffurflen ar-lein ar wefan Cwm Taf.

Ar y llaw arall, gan fod brechiadau ar gyfer y bobl yn y pedwar grŵp blaenoriaeth cyntaf wedi eu cwblhau, mae'r ffocws bellach ar yr 120,000 o bobl sy'n perthyn i grwpiau blaenoriaeth pump i naw.

Cred cydweithwyr yng Nghwm Taf eu bod yn debygol o gwblhau'r ffes newydd a rhoi o leiaf un dogn o'r brechiad i bawb erbyn diwedd mis Ebrill.

Mae'r Cyngor yn parhau i gydweithio'n agos â'r bwrdd iechyd, ac yn cefnogi dosbarthu'r brechiad yma ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

Rydym yn arwain ar fenter brofi llif ochrol, a adnabyddir hefyd fel profi cymunedol, o fewn nifer o'n wardiau lleol.

Menter bedair wythnos gan Lywodraeth Cymru yw hon lle mae tîm profi'n targedu cymunedau gwahanol, gan brofi trigolion 11 oed a throsodd nad ydynt yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19.

Yr amcan yw adnabod unigolion asymptomatig efallai nad ydynt yn ymwybodol eu bod wedi eu heintio.

Mae'n ymwneud â sefydlu canolfannau y gall pobl eu mynychu a chynnal prawf arnynt eu hunain, sydd wedyn yn cael ei brosesu ar y safle.

Bydd y rhai sy'n gwneud y prawf yn derbyn canlyniad ar ffurf neges destun neu e-bost o fewn 30 munud o'i gwblhau.

Os yw'n gadarnhaol, gwneir trefniadau i'r unigolyn dderbyn ail brawf i gadarnhau ei statws.

Ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont, bydd y profi llif ochrol yn canolbwyntio ar ardaloedd Caerau, Nantyffyllon, Y Pîl, Mynydd Cynffig, Cornelly, Cefn Cribwr, Sarn, Abercynffig, Ynysawdre, Bryncethin, Bryncoch, Pencoed, Hendre, Felindre a Phenprysg.

Er bod yr ardaloedd yma wedi eu dewis yn bennaf ar sail data iechyd cyhoeddus, mae'r rhaglen brofi wedi'i chynllunio i allu ymateb petai digwydd i leoliad problemus arall ddod i'r amlwg.

Mae paratoadau helaeth ar waith ar hyn o bryd er mwyn trefnu a hybu'r profi llif ochrol, ac mae'r Arweinydd yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn chwarae eu rhan drwy sicrhau fod pobl yn ymwybodol ac yn hybu'r profi.

Gyda'r rhaglen ar fin dechrau, disgwylir i Lywodraeth Cymru gadarnhau manylion pellach yn y dyfodol agos iawn, a bydd yr Arweinydd yn sicrhau fod yr Aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf.

Bydd profi llif ochrol hefyd yn digwydd o fewn ysgolion lleol a Darpariaeth Amgen y Bont, unwaith eto yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

Bwriad hyn yw ceisio rhwystro'r tebygrwydd o glystyrau ac achosion newydd, gan osgoi amharu ar addysg a gofal sy'n dilyn yn sgil hynny.

Drwy gydol y mentrau brechu, profi symudol a chymunedol, roedd yn ofid iddo ddweud y bydd angen i drigolion fod yn effro o hyd i sgamwyr sydd â'u bryd ar dwyllo pobl i roi arian a gwybodaeth gyfrinachol iddynt.

Hyderai y byddai Aelodau'n atgoffa eu hetholwyr fod y brechiad ar gael yn rhad ac am ddim. Ni fydd y GIG fyth yn gofyn am arian, ac ni fyddant yn galw mewn cartrefi'n ddirybudd nac yn gofyn i chi am ddogfennau cyfrinachol na manylion banc.

Fel o'r blaen, mae'r cyngor ynglŷn â chadw Cymru'n ddiogel yn dal yr un peth, felly dylid cofio cadw pellter o ddwy fetr oddi wrth eraill, golchi dwylo'n gyson a gwisgo gorchudd wyneb yn ôl y gofyn.

Mae adnoddau profi symudol ar gael o hyd o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar gyfer unrhyw un sy'n dioddef o symptomau Covid-19, a cheir manylion pellach ynglŷn â'r rhain ar wefannau'r Cyngor, Cwm Taf a Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddodd yr Arweinydd cyn cloi, ein bod wrth gwrs ei bod hi bron yn flwyddyn nawr ers dechrau'r pandemig. Mae prosiect cenedlaethol ar waith i nodi'r digwyddiad ar 23 Mawrth, er mwyn rhoi cyfle i bobl dalu gwrogaeth i'r rhai sydd wedi marw o ganlyniad i Covid-19.

Mae'r prosiect yn ymwneud â goleuo strwythurau eiconig ac adeiladau cymunedol, megis y Pafiliwn Mawr ym Mhorthcawl, a bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yn cymryd rhan.

Bydd yr Arweinydd yn rhannu manylion pellach gydag Aelodau cyn gynted ag y byddant wedi eu cadarnhau.

507. <u>CYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2023 ADOLYGWYD AR GYFER 2021-22</u>

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn ceisio cefnogaeth y Cyngor i Gynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-2023 a adolygwyd ar gyfer 2021-22 (atodir yn Atodiad A yr adroddiad).

Eglurodd fod y Cynllun Corfforaethol 2018-2023, yn disgrifio gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, ein 3 nod lles a'r gwerthoedd sefydliadol sy'n Sylfaen i'r modd yr ydym yn gweithio ac yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae hefyd yn cynrychioli'r cyfraniad i gyflawni'r 7 nod lles cenedlaethol.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cynllun Corfforaethol wedi'i adfywio ar gyfer 2021-22. Digwyddodd hyn yn sgil proses gynllunio'r Cynllun Corfforaethol gan Gyfarwyddwyr Corfforaethol / Penaethiaid Gwasanaethau drwy dîm rheoli adrannol pob Cyfarwyddiaeth. Cynhaliwyd y broses rhwng mis Hydref 2020 a mis Rhagfyr 2020 er mwyn adolygu gwelliant a chreu cynllun symlach.

Fel rhan o'r gwaith a ymgymerwyd i ddatblygu agwedd y Cyngor at gynllunio adferiad yn sgil Covid-19, defnyddiwyd argymhelliad y Panel Adferiad amlbleidiol a sefydlwyd gyda'r bwriad o lunio, hysbysu a chynghori'r Cabinet ar waith cynllunio adferiad y Cyngor er budd yr adolygiad o'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021-22.

Hefyd, fel rhan o'r adolygiad blynyddol, awgrymwyd y dylid ymestyn oes y Cynllun Corfforaethol cyfredol o flwyddyn tan 2023. Eglurwyd y syniadaeth y tu ôl i hyn ym mharagraff 4.5 yr adroddiad.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y targedau a osodwyd wedi mynd yn angof yn sgil Covid-19, oherwydd nad oedd y dangosyddion perfformiad a'r data a gasglwyd yn nodweddiadol o berfformiad blwyddyn gyffredin.

Cyfeiriodd at y ffaith fod y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu wedi ystyried y cynllun diweddaraf ar 14 Ionawr 2021 gan wneud nifer o sylwadau adeiladol, a ychwanegwyd at y cynllun diweddaraf os yn ddichonadwy. Byddai'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r cynnydd yn unol â'r cynllun, ychwanegodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid Perfformiad a Newid.

O dderbyn cefnogaeth y Cyngor, byddai'r Cynllun diwygiedig yn cael ei ddefnyddio yn lle'r Cynllun Corfforaethol cyfredol. Byddai'n cael ei weinyddu gyda chefnogaeth y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chyfarwyddiaeth cynlluniau busnes. Byddai'n cael ei fonitro'n chwarterol drwy gyfrwng y broses Asesu Perfformiad Corfforaethol, cyfarfodydd rheoli'r tîm cyfarwyddo a ddwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu.

Teimlai'r Aelod Cabinet – Addysg ac Adfywiad fod y targedau a'r dangosyddion perfformiad a osodwyd y llynedd yn ystod cyfnod Covid bellach bron yn amherthnasol, o ystyried na fyddai modd i'r gwaith a gyflawnwyd gan yr Awdurdod yn ystod y fath gyfnod digynsail lawn adlewyrchu'r heriau a wynebwyd gan staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a'r gwaith a gyflawnwyd ganddynt ar ran y Cyngor bron o ddiwrnod cyntaf y cyfnod clo.

Cadarnhaodd yr Arweinydd nad oedd y Cynllun Corfforaethol yn llawn adlewyrchu rhai o'r newidiadau dramatig a phellgyrhaeddol a oedd wedi effeithio ar gymdeithas yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd yr Awdurdod wedi llwyddo i gyflawni llawer mewn cyfnod byr, yn cynnwys cefnogi'r digartref drwy ddarparu llety dros dro. Roedd gwaith gyda'r trydydd sector yn parhau er mwyn helpu'r unigolion yma i wella'u bywydau ymhellach, drwy eu helpu i sicrhau llety parhaol i'r dyfodol. Diolchodd i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg Corfforaethol a Chraffu am eu gwaith adeiladol oedd wedi helpu wrth lunio'r Cynllun.

Nododd yr Aelod Cabinet – Cymunedau y byddai rhai o weledigaethau ac amcanion y Cynllun yn cynnwys Bargen Dinas Ranbarthol Prifddinas Caerdydd yn creu 25,000 o swyddi yn ystod y 15 mlynedd nesaf a buddsoddiad sector breifat o 4 biliwn, yn cynnwys ymrwymiad pendant i fyd twristiaeth a busnes yn ogystal ag argymhellion datgarboneiddio drwy Strategaeth newydd.

Hyderai Aelod hefyd, cyn gynted ag y byddai'r pandemig yn dechrau dirwyn i ben, y byddai modd cyflawni rhai o dargedau'r Cynllun, o sylweddoli fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un anodd o safbwynt cyflawni amcanion a gobeithion. Hyderai y byddai modd gwireddu targedau'n ymwneud ag ailddefnyddio eiddo gwag a'u gwneud yn addas i fyw ynddynt unwaith eto yn y dyfodol.

Sicrhaodd y Prif Swyddog Interim - Cyllid, Perfformiad a Newid yr Aelodau y byddai hyn yn digwydd ac y byddai targedau a heriau na chafodd eu cyflawni yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn sgil Covid, yn dal i gael eu gwthio yn eu blaenau ac o fethu â'u cyflawni, y byddai'r rhain yn cael eu herio drwy'r broses Drosolwg a Chraffu.

Ychwanegodd yr Aelod Cabinet – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol, y byddai'r targed ar gyfer adfer eiddo gwag a'u gwneud yn addas i fyw ynddynt yn ystod y flwyddyn nesaf ac i'r dyfodol yn un realistig wrth i'r Awdurdod wneud ei ffordd allan o'r pandemig.

CYTUNWYD: Fod y Cyngor yn cefnogi ac yn mabwysiadu Cynllun Corfforaethol 2018-2023, a adolygwyd ar gyfer 2021-22.

508. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG (MTFS) 2021-22 TAN 2024-25

Cyflwynodd y Prif Swyddog Interim, Cyllid, Perfformiad a Newid adroddiad yn cynnwys y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2021-22 i 2024-25, a gynhwysir yn Atodiad 3, gan gynnwys rhagolwg ariannol ar gyfer 2021-25, cyllideb refeniw fanwl ar gyfer 2021-22 a Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2020-21 tan 2030-31.

Eglurodd fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS), wedi'i llywio'n sylweddol gan brif flaenoriaethau penodol. Er bod newidiadau blynyddol Cyllid Allanol Cyfansymiol (AEF) wedi gorfodi lleihad sylweddol yn y gyllideb ar draws meysydd gwasanaeth gwahanol, mae'r Cyngor yn dal i chwarae rôl amlwg yn economi leol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ac yn gyfrifol am grynswth gwariant blynyddol o gwmpas £435 miliwn a dyma'r cyflogwr mwyaf o fewn y fwrdeistref sirol.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor hefyd wedi'i gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo ynghyd â'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (MTFS) 2021-25, ac mae'r ddwy ddogfen yn ymochrol, ac felly'n galluogi'r darllenydd i wneud cysylltiadau penodol rhwng amcanion lles y Cyngor a'r adnoddau sydd wedi eu clustnodi i'w cefnogi.

Aeth y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid ymlaen i sôn fod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor, er mwyn cyflwyno manylion ynglŷn â Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer y cyfnod pedair blynedd 2020-21 tan 2023-24. Roedd y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn gyflenwol i Gynllun Corfforaethol y Cyngor, ac yn edrych i ddarparu adnoddau a fyddai'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion lles.

Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn canolbwyntio ar y modd yr oedd y Cyngor yn bwriadu ymateb i'r toriadau yn y cyllid ar gyfer y sector gyhoeddus o ganlyniad i'r cyfnod parhaus o lymder a'r pwysau cynyddol ar wasanaethau'r sector cyhoeddus, a waethygodd yn ystod y pandemig Covid-19.

Roedd adroddiadau chwarterol i'r Cabinet yn ystod y flwyddyn ariannol yn ymwneud â rhagolygon y sefyllfa gyllid ar gyfer 2020-21, wedi amlinellu'n o fanwl effaith costau ychwanegol a cholli incwm a wynebwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn sgil y pandemig Covid-19 ar y gyllideb. Roedd Llywodraeth Cymru wedi dod i'r adwy o safbwynt lleihau cyfradd helaeth o'r colledion yma drwy gyfrwng nifer o ffynonellau ariannu, yn benodol Cronfa Caledu Cofid-19. Er nad oedd rhai o'r heriau ychwanegol yma'n gylchol, roedd nifer yn gofyn am ariannu tymor hir wrth i ffyrdd newydd o weithio gael eu hymgorffori yng ngweithrediad arferol y Cyngor, fel yr adlewyrchwyd yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

Argymhellodd y Prif Swyddog Interim - Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd disgwyl cyhoeddi'r setliad terfynol oddi wrth Lywodraeth Cymru tan 2 Mawrth 2021. O ganlyniad, argymhellwyd y gyllideb ar sail y setliad dros dro a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2020.

Aeth yr adroddiad ymlaen i amlinellu'r heriau ariannol y gofynnwyd i'r Cyngor eu hystyried fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig MTFS 2021-22 tan 2024-25. Mae angen i Swyddog Adran 151 y Cyngor adrodd yn flynyddol ar lefelau'r arian wrth gefn. Eglurodd fod lefelau arian wrth gefn y Cyngor, yn ddigonol i ddiogelu'r Cyngor yn wyneb gofynion annisgwyl neu argyfyngau ar sail lefelau ariannu cyfredol. Serch hynny, dywedodd y Prif Swyddog Interim– Cyllid, Perfformiad a Newid mai'r prif heriau oedd yn wynebu'r Cyngor ar hyn o bryd oedd yr ansicrwydd ynglŷn
â chyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn cynnwys cyllid i leihau effaith Covid=19, yr anawsterau cynyddol wrth gyflwyno'r toriadau arfaethedig yn y gyllideb, yn ogystal ag adnabod unrhyw argymhellion pellach.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid (a'r Swyddog 151) bod rheidrwydd arni hefyd i adrodd i'r Cyngor os nad oedd yn credu fod gan yr Awdurdod adnoddau digonol i gyflawni ei rôl yn unol â S114 of Deddf Llywodraeth Leol 1988. Gofynnodd i'r Aelodau nodi fod digon o adnoddau ar gael i gyflawni'r rôl hon.

Rhannodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid rhai prif bwyntiau gyda'r Cyngor wedyn a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiadau yn y dogfennau cefnogol, h.y. ar ffurf Atodiadau ac Atodlenni, er gwybodaeth i'r Aelodau.

Diolchodd y Dirprwy Arweinydd i'r Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Tîm Cyllid am yr adroddiad a'r gwaith sylweddol a wnaed wrth ei lunio, er mwyn sicrhau cyllideb gytbwys. Bu'n anodd iawn, cadarnhaodd, i gytuno ar Dreth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod. Serch hynny, roedd angen gwneud penderfyniadau heriol yn dilyn cyfnod o 10 mlynedd o doriadau o £68 o safbwynt lleihad yn y gwasanaethau a ddarparwyd gan y Cyngor oedd yn cyfateb i 25% o gyfanswm cyllideb y Cyngor. Roedd angen gwneud yr arbediad o £8m i'r gyllideb a ragwelwyd yn wreiddiol, ond roedd hynny'n anodd gwneud. Yn gynnar yn nhrafodaethau'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig eleni, amcangyfrifwyd y byddai angen cynyddu Treth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn oedd i ddod o 6.5% ier mwyn i'r Cyngor allu cydymffurfio â'r gyllideb a pharhau i allu cynnig gwasanaethau hanfodol i'r cyhoedd. Cafodd Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb y Cyngor (BREP) a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ddigon o gyfle yn ystod y 12 mis diwethaf i holi'r Cabinet a'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol ynglŷn â lle y gellid gwneud yr arbedion mwyaf, yn ôl y gofyn. Aeth ymlaen i egluro fod y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig wedi ei thrafod yn helaeth, a bod Aelodau wedi cael cyfle i fynegi barn, yn ogystal â'r cyhoedd,

drwy'r dulliau ymgynghori arferol. Gwnaed hyn yng nghanol pandemig, ychwanegodd. Ym mis Rhagfyr 2020, eglurodd y Dirprwy Arweinydd fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi mwy o arian na'r disgwyl i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a bod hyn wedi arwain at ailystyried rhai o'r toriadau a argymhellwyd yn wreiddiol. Golygai hyn nad oedd angen gwneud toriadau o £1m mewn ysgolion a bod modd cyfeirio mwy o arian at y digartref. Cafwyd heriau ariannol hefyd, er enghraifft, o safbwynt cynnydd yn nifer y disgyblion mewn ysgolion a chefnogi'r cyflog byw ar gyfer staff y Cyngor. Serch hynny, roedd y Cyngor wedi llwyddo i ariannu'r heriau yma drwy'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd y cyllid ychwanegol hefyd at allu lleihau'r cynnydd i Dreth y Cyngor a argymhellwyd yn gynharach yn y flwyddyn, fel yr amcangyfrifwyd uchod, i 3.9%.

Holodd Aelod os oedd yr arbediad arfaethedig o £300k yng nghyswllt caeau chwarae ayb, ond yn weithredol os fydd y CAT arfaethedig yn cael ei gwblhau.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod yr arbedion yma ond yn ymwneud â throsglwyddiadau CAT oedd wedi eu cadarnhau gyda chlybiau a sefydliadau penodol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, nid rhai eraill nad oedd wedi eu cadarnhau'n derfynol hyd yma.

Cyfeiriodd Aelod at y wybodaeth Asesiad Risg Corfforaethol ar dudalen 165 yr adroddiad, yn benodol risgiau 14 a 15. Holodd os oedd y rhain yn gysylltiedig â Covid, a pha gamau oedd i'w cymryd i leihau Risg 15, a oedd wedi ei graddio fel bod yn risg sylweddol iawn.

Credai'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chefnogaeth Deuluol fod y risg hon yn cael ei lleihau drwy arferion oedd eisoes wedi eu mabwysiadu. Serch hynny, eglurodd y byddai'n ymgynghori â'r Consortiwm De Canolog er mwyn profi'r risg hon unwaith eto a dod nôl ag ateb i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Teimlai Aelod na allai gefnogi argymhellion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig na'r argymhelliad i gynyddu Treth y Cyngor. Daeth i'r casgliad yn sgil effaith y pandemig ar etholwyr y Fwrdeistref Sirol, a olygodd fod nifer sylweddol ohonynt yn wynebu caledu ariannol drwy golli swyddi ayb, gan arwain at ddirywiad yn eu hiechyd a'u lles. Teimlai nad oedd yr argymhellion uchod yn gyson â'r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Credai fod yna ddulliau amgen o safbwynt arbed arian a allai wneud iawn am y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, yn cynnwys toriadau yn nifer y staff yn y swyddfa a/neu gymryd arian o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod a oedd mewn sefyllfa iach.

Eglurodd yr Arweinydd fod awdurdodau lleol ar hyd a lled y wlad yn gorfod cynyddu Treth y Cyngor, er mwyn sicrhau cydbwysedd o ran cyllideb, yn enwedig yn wyneb yr heriau ariannol ychwanegol ar sefydliadau cyhoeddus yn sgil Covid-19 a phwysau cyflogau, ac ati. O fethu cyflawni'r rhain yn ystod y flwyddyn hon, byddent ond yn cael eu symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf, gan ychwanegu at yr heriau ariannol oedd eto i ddod. Tanlinellodd yr arbedion y gorfodwyd y Cyngor i'w gwneud yn ystod y cyfnod llymder, sef cyfanswm o £68m, yn cynnwys gorfod diswyddo nifer sylweddol o staff y Cyngor ei hun a thorri gwasanaethau cyhoeddus, a oedd wedi cael effaith ar y cyhoedd. Ni chafodd cyllideb amgen ei chyflwyno'n gynharach gan y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) na'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu, yng nghyswllt ffyrdd y gallai'r Cyngor wneud arbedion ar wahân i'r rhai ym maes gwasanaethau fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad. Ymhellach, cytunwyd ar nifer o argymhellion a wnaed gan y ddau fel rhan o argymhellion terfynol y Strategaeth

Ariannol Tymor Canolig a gyflwynwyd i Aelodau heddiw. Doedd yr Awdurdod ddim yn dymuno gwneud arbedion yn unrhyw le, ychwanegodd yr Arweinydd, ond doedd fawr o ddewis ond gwneud hynny, yn sgil y sefyllfa bresennol a’r ansicrwydd yr oedd yn ei wynebu i’r dyfodol, yn enwedig yng nghyswllt y pandemig. O fethu cynyddu Treth y Cyngor, byddai angen chwilio am doriadau pellach yn rhywle arall, yn cynnwys ardaloedd o gynnydd, ychwanegodd.

Serch hynny, roedd y Cabinet wedi cytuno i ailystyried y modd yr oedd y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) yn gweithredu, er mwyn ei wella, ac ystyried y modd yr oedd yn integreiddio â Chyfarwyddwyr wrth ystyried y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig i’r dyfodol.

Cytunodd yr Aelodau, yn wyneb y ffaith fod cefnogaeth wrthgyferbyniol ar gyfer argymhellion y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, symud at bleidlais wedi’i chofnodi. Dyma’r canlyniad:-

O Blaid:

Y Cynghorwyr S Aspey, SE Baldwin, JP Blundell, NA Burnett, RJ Collins, HJ David, P Davies, PA Davies, J Gebbie, RM Granville, G Howells, M Jones, M Kearn, DRW Lewis, JE Lewis, J McCarthy, D Patel, B Sedgebeer, RMI Shaw, CE Smith, SG Smith, JC Spanswick, G Thomas, DBF White, PJ White, HM Williams ac RE Young = **27 Pleidlais**

Yn Erbyn:

Y Cynghorwyr T Beedle, M Clarke, N Clarke, DK Edwards, T Giffard, A Hussain, B Jones, A Pucella, KL Rowlands, R Stirman, R Thomas, T Thomas, E Venables, S Vidal, MC Voisey, L Walters, C Webster, A Williams, AJ Williams a J Williams = **20 Pleidlais**

Ymatal:

Y Cynghorwyr SK Dendy, CA Green, RM James a KJ Watts = **4 Pleidlais**

Felly derbyniwd argymhellion yr adroddiad.

CYTUNWYD: Derbyniodd y Cyngor y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 tan 2024-25 yn cynnwys cyllideb gyllid 2021-22 a Rhaglen Gyfalaf revenue budget and the Capital Programme 2020-21 tan 2030-31, yn cynnwys yr elfennau penodol canlyunol:

- Y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021-22 tan 2024-25 (Atodlen 3 yn yr adroddiad).
- Gofynion y Gyllideb Net o £298,956,245 yn 2021-22.
- Treth Cyngor Band D o £1,597.01 ar gyfer 2021-22 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont (Tabl 17 o’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig).
- Cyllidebau 2021-22 fel y’i cofnodir yn unol â Thabl 10 ym mharagraff 4.1.3 o’r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

• Y Rhaglen Gyfalaf 2020-21 tan 2030-31, a atodir yn Atodiad H o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

509. TRETH Y CYNGOR 2021-22

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid, gyda'r diben o roi manylion i'r Cyngor ynglŷn â gofynion treth y cyngor o safbwynt y Cyngor Bwrdeistref Sirol, ynghyd â gofynion Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer De Cymru a Chynghorau Cymunedol/Tref, ac i geisio cefnogaeth y Cyngor i dreth cyngor Band D ar gyfer Cyngor Sir Bwrdeistref Pen-y-bont ac ardaloedd y gymuned yn ystod 2021-22.

Agorodd yr adroddiad drwy gyflwyno ychydig wybodaeth gefndirol , cyn symud ymlaen i baragraff 4.1, oedd yn amlinellu'r Gyllideb Cyllid Net ar gyfer 2021-22, y cytunwyd arni eisoes yng nghyfarfod heddiw.

£298,956,245 yw gofyniad cyllideb net Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar gyfer 2021-22, a'r swm i'w ariannu gan Dreth y Cyngor yw £86,764,691 fel y gwelir yn Nhabl 2 o fewn yr adroddiad. Mae hyn yn cyfateb i Dreth Cyngor o £1,597.01 yn achos eiddo Band D, sy'n gynnydd o 3.9%. Mae'r argymhelliad o gynnydd o 3.9% yn cyfateb i 77c yr wythnos yn achos person sy'n byw mewn eiddo Band A a £1.15 yr wythnos yn achos rhywun sy'n byw mewn eiddo Band D (mae 62% o'r eiddo ym Mhen-y-bont yn is na Band D).

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru wedi hysbysu'r Cyngor fod eu setliad ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dirwyn i ben ar 31 March 2022 yn cynyddu i £15,631,672, sy'n cyfateb i dreth cyngor o £287.72 ar eiddo Band D, sy'n gynnydd o 5.5%. Cytunwyd ar setliad 2021-22 gan Banel Heddlu a Throsedd De Cymru ar 3 Chwefror 2021.

O safbwynt blwyddyn ariannol 2021-22, nododd Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru fod y symiau i'w trethi gan y Cyngor yng nghyswllt gwasanaethau'r heddlu, yn unol ag adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1992, i'w gweld ar gyfer bob categori eiddo yn Nhabl 3 yr adroddiad.

Mae Tabl 4, yn adlewyrchu'r cynnydd cyfartalog yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021-22, yn cynnwys cyfartaledd eiddo Band D.

Manylu ar y cynnydd cyfartalog yn Nhreth y Cyngor ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont y mae paragraff 4.6 yr adroddiad (gan gynnwys bob un o'r cyrff setliad).

Yn hynny o beth, mae cynnwys gofynion Cyfanswm Cyfartalog Treth Cyngor Band D, 2021-22 y mae Tablau 6 a 7, o safbwynt holl ardaloedd Cymunedol/Trefol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

Holodd Aelod ynglŷn â'r cynnydd, gan ychwanegu fod cynnydd o 3.9% yn anffodus. Seiliodd hyn ar y ffaith fod Covid wedi bod yn gyfnod digynsail a bod llawer o drigolion ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol wedi colli eu swyddi, gan arwain at drafferthion o safbwynt talu eu morgais, a rhai hyd yn oed yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd i ddal deupen llinyn ynghyd. Am y rhesymau hynny, credai na ddylai'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ar gyfer 2021-22 fod yn fwy na chyfradd chwyddiant.

Holodd hefyd os allai'r nifer o eiddo o fewn bob Bant Treth y Cyngor gael eu nodi ar gyfer bob Band unigol, neu fel canran o bob Band, yn adroddiadau'r dyfodol.

Cytunodd aelodau, drwy gydsyniad pawb, i bleidleisio ar y gwelliannau yn yr adroddiad, a dyma nodi'r canlyniad:-

O blaid:

Y Cynghorwyr SE Baldwin, JP Blundell, NA Burnett, RJ Collins, HJ David, P Davies, PA Davies, J Gebbie, RM Granville, G Howells, M Jones, M Kearn, DRW Lewis, JE Lewis, JR McCarthy, D Patel, B Sedgebeer, RMI Shaw, CE Smith, SG Smith, JC Spanswick, G Thomas, DBF White, PJ White, HM Williams ac RE Young = **26 Pleidlais**

Yn Erbyn:

Y Cynghorwyr T Beedle, M Clarke, SK Dendy, DK Edwards, T Giffard, A Hussain, B Jones, A Pucella, KL Rowlands, R Stirman, R Thomas, T Thomas, E Venables, S Vidal, MC Voisey, L Walters, CA Webster, A Williams, AJ Williams and J Williams = **20 Pleidlais**

Ymatal:

Y Cynghorwyr S Aspey, N Clarke, CA Green, RM James and KJ Watts = **5 Pleidlais**

Derbyniwyd argymhellion yr adroddiad felly.

CYTUNWYD: Cytunodd y Cyngor:-

- y dylai Band D Treth Cyngor Sir Bwrdeistref Pen-y-bont gynyddu i £1,597.01 ar gyfer 2021-22, a
- ar lefelau Treth Cyngor ar gyfer eiddo Band D 2021-22 ar gyfer pob cymuned yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn Nhabl 7 yr adroddiad.

510. RHEOLAETH Y TRYSORLYS A STRATEGAETHAU CYFALAF O 2021-22 YMLAEN

Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid, gyda'r nod o gyflwyno Strategaeth Reolaeth y Trysorlys 2021-22 (Atodiad A yr adroddiad), sy'n cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, a'r Strategaeth Gyfalaf 2021-22 tan 2030-31 (Atodiad B), oedd yn cynnwys y Dangosyddion Ariannol a Datganiad Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw 2021-22 (Atodlen A Atodiad B), i'r Cyngor ei gymeradwyo.

Eglurodd fod Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021-22 yn cadarnhau cydymffurfiaeth y Cyngor gyda Chod y CIPFA, sy'n gofyn i amcanion, polisïau ac arferion cynhwysfawr yn eu lle ar gyfer rheolaeth effeithiol o weithgareddau rheoli'r trysorlys, a bod rheoli risg yn un o brif amcanion y gweithgareddau yma. Roedd hefyd yn cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer cyfnod treigl o dair blynedd.

Diweddarwyd Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i adlewyrchu'r cyd-destun economaidd cyfredol, yn cynnwys y ffaith fod Banc Lloegr yn cadw'r cyfraddau llog ar raddfa o 0.10%, yn ogystal â'r sialensiau cysylltiedig â gadael yr Undeb Ewropeaidd ac effaith y pandemig Covid-19, a oedd yn parhau o hyd ac felly'n dal i achosi risg sylweddol.

Ychwanegodd y Prif Swyddog Interim - Cyllid, Perfformiad a Newid fod terfynau buddsoddi gwrth bartïon (Tabl 6 o'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys atodedig) wedi eu symleiddio a'u haddasu i ystyried y wybodaeth ddiweddaraf oddi wrth Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor, Arlingclose. Cafwyd newid i derfynau'r Gronfa Farchnad Arian, a oedd wedi cynyddu yn y gorffennol i £30 miliwn fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2020. Diddymwyd y terfyn yma bellach gan olygu nad oes terfyn

buddsoddiad o safbwynt y Gronfa Farchnad Arian. Serch hynny, ni chaiff mwy na £6 miliwn ei fuddsoddi mewn unrhyw Gronfa unigol, er mwyn lleihau'r risg diffyg i'r Cyngor.

Eglurodd yr adroddiad y gall y Cyngor gynnig benthyciadau i drydydd parti ar gyfer gwariant cyfalaf. Cynyddwyd y terfyn arfaethedig ar gyfer y fath fenthyciadau o £1 filiwn i £2 filiwn. Gwnaed hyn i gefnogi'r buddsoddiad posibl mewn Cerbyd Diben Arbennig i gefnogi cyflwyno'r Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont arfaethedig.

Eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Strategaeth Gyllid, Atodiad B, yn cynnig trosolwg sylweddol o'r modd y mae gwariant cyfalafol a gweithgaredd rheolaeth y trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, yn ogystal ag yn rhoi trosolwg o'r modd y caiff y risg sy'n gysylltiedig â hynny ei rheoli a'r oblygiadau o safbwynt cynaliadwyedd i'r dyfodol. Drwy wneud hynny, cynhwyswyd Dangosyddion Ariannol ar gyfer cynfod treiglo o dair blynedd.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf hefyd yn cynnig fframwaith ar gyfer hunan-reoli cyllid cyfalaf ac yn ystyried y meysydd canlynol:-

• Gwariant cyfalaf a chynlluniau buddsoddi
• Dangosyddion Ariannol
• Dyled allanol
• Rheoli'r Trysorlys.

Adroddir ymhellach hefyd ar gyflawniad, fforddadwyedd a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyd-destun hir dymor o safbwynt gwariant cyfalaf a phenderfyniadau'n ymwneud â buddsoddiadau, ychwanegodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid.

Er bod cryn dipyn o gynnwys y Strategaeth yn debyg i'r hyn a gafwyd yn y gorffennol, cafwyd nifer o newidiadau yr oedd angen eu tanlinellu. Roedd y rhain yn ymwneud â Chyfrifeg Prydlesi, Benthyciadau ar gyfer Gweithgareddau Masnachol ac argymhellion penodol yn ymnweud ag Archwiliadau Mewnol.

Daeth y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid i ddiwedd ei chyflwyniad wedyn, gan gynnig diweddariad i'r Cyngor ynglŷn â phrif elfennau gwybodaeth atodol yr adroddiad, yn enwedig yng nghyswllt rhoi a derbyn benthyciadau ac unrhyw newidiadau yng nghyswllt trefniadau'n ymwneud â hynny.

Cyfeiriodd Aelod at y Cerbyd Pwrpas Arbennig a'r argymhelliad i gynyddu benthyciadau i gwmnïau allanol hyd at £2m. Holodd yn benodol ynglŷn â sut yr oedd yr Awdurdod yn bwriadu amddiffyn ei hun rhag benthyciadau hyd at y swm yma ac yna benthyg er mwyn darparu Cerbyd Pwrpas Arbennig. Amcangyfrifwyd y byddai'r ad-daliad ar gyfer hwn dros gyfnod o 40 mlynedd ar gyfradd llog o 2.6%. Holodd a fyddai'r math hwn o fenthyca'n effeithio ar allu'r Cyngor i fenthyg arian, er mwyn ariannu Rhaglenni Ysgol Band B.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd yr Awdurdod wedi ymwneud erioed o'r blaen â Cherbyd Pwrpas Arbennig. Serch hynny, o safbwynt sicrwydd, eglurodd y byddai'r Cerbyd Pwrpas Arbennig yn derbyn cefnogaeth o safbwynt sylwdau gan y Cyngor, yn ogystal â chan gwmni â chysylltiadau agos iawn â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Felly, byddai gennym elfen o reolaeth dros y buddsoddiad yn y cyswllt hwn. Er nad oedd modd i unrhyw sefydliad leihau'r risg oedd yn gysylltiedig â benthyciadau, eglurodd y Prif Swyddog Interim – Cyllid, Perfformiad a Newid fod cydweithwyr yn y Gyfarwyddiaeth Cymunedau'n sicrhau fod prosesau wedi eu sefydlu i leihau'r risgiau yma.

Holodd yr Aelod wedyn beth oedd cost rhedeg y Cerbyd Pwrpas Arbennig, a ble fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont yn edrych, h.y. o safbwynt cwmni ynni safonol, a chanddo'r profiad mwyaf perthnasol a digonol i gefnogi'r argymhelliad yn iawn. A oedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ddigon o brofiad i gefnogi prosiect o'r maint hwn, ychwanegodd, o gofio ei fod yn heriol iawn.

Sicrhaodd yr Aelod Cabinet – Cymunedau – yr Aelod, er bod hwn yn gysyniad newydd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, roedd awdurdodau lleol eraill wedi ymgymryd â mentrau fel hyn, h.y., cwmni lled braich i alluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont i ddarparu gwasanaethau allweddol ar eu rhan. Roedd y prosiect hefyd yn gysylltiedig â Strategaeth Ddatgarboneiddio'r Cyngor, ychwanegodd.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau y byddai adroddiad mwy cyflawn yn ymwneud â'r Cerbyd Pwrpas Arbennig yn cael ei gyflwno i'r Cabinet ar 9 Mawrth ac y byddai'r adroddiad hwn yn egluro'r argymhelliad fwy manwl fel rhan o gynllun Rhwydwaith Gwres Rhanbarth Pen-y-bont. Eglurodd y byddai'r cyllid ar gyfer y fenter yn cael ei drefnu ar y cyd rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a'r Prosiect Buddsoddi Rhwydweithiau Gwres (HNIP), rhaglen dan nawdd y llywodraeth, sydd wedi addo dros £1m ar gyfer rhwydwaith fesul cam, gan ddechrau gyda Ffês 1 yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont. Felly, byddai'r buddsoddiad yn deillio o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont a'r Prosiect Buddsoddi Rhwydweithiau Gwres. Un o argymhellion y Prosiect Buddsoddi Rhwydweithiau Gwres wrth sefydlu'r Cerbyd Pwrpas Arbennig, oedd y byddai'r prosiect yn eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont 100%. Roedd y Cyngor wedi sicrhau gwasanaethau'r ymgynghorwyr cyfreithiol, Brodies, a oedd wedi cynnig cyngor ynglŷn â sut i sefydlu Cerbyd Pwrpas Arbennig ar gyfer rhwydweithiau Gwres Rhanbarthol awdurdodau lleol, drwy gymorth rheolwyr Prosiect ymysg eraill.

Byddai'r cynllun hefyd yn cael ei gefnogi gan Gontractiwr arbenigol, a hynod brofiadol o'r sector ynni, ac er yn gweithio i'r Cerbyd Pwrpas Arbennig, eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont fyddai'r Cerbyd Pwrpas Arbennig ei hun.

Petai Ffês 1 y cynllun yn llwyddiannus o safbwynt targedau Datgarboneiddio ac o gymorth wrth greu Pen-y-bont Sero Net, yna byddai ffês 2 a 3 o'r cynllun yn cael eu hystyried. Byddai'r Cerbyd Pwrpas Arbennig hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau Datgarboneiddio pellach. Eglurodd Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau fod y prosiect cyntaf yn hynod flaengar ac roedd y benthyciad dros gyfnod arfaethedig o 40 mlynedd yn ddigon cyffredin o safbwynt prosiectau o'r fath, gyda'r tymor cyfartalog yn amrywio o 30-50 mlynedd, gydag elw ar y buddsoddiad a wnaed yn wreiddiol. Serch hynny, gallai cyfnod 40 mynedd y benthyciad gael ei leihau yn unol â llwyddiant y cynllun.

Petai'r Cabinet a'r Cyngor yn cytuno ar y cynllun a sefydlu'r Cerbyd Pwrpas Arbennig, yna byddai'n mynd allan i dendr yn yr un modd â phob Cytundeb newydd arall.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr a'r Arweinydd, yn eu tro, y byddaï'r Cyngor yn cefnogi'r cynllun, petai'r cyllid oddi wrth y Prosiect Buddsoddi Rhwydweithiau Gwres ar gyfer y cynllun yn cael ei wrthod, rhag i awdurdod lleol cyfagos fanteisio arno ar gyfer yr un pwrpas. Pwysleisiwyd na fyddai modd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ddefnyddio'r cyllid ar gyfer unrhyw fath arall o gynllun.

Cydsyniodd yr Aelodau bleidleisio ar argymhellion yr adroddiad, a dyma'r canlyniad:

<u>O Blaid:</u>

Y Cynghorwyr S Aspey, SE Baldwin, T Beedle, JP Blundell, NA Burnett, RJ Collins, HJ David, P Davies, PA Davies, DK Edwards, J Gebbie, RM Granville, CA Green, G Howells, RM James, M Jones, M Kearn, DRW Lewis, JE Lewis, JR McCarthy, D Patel, B Sedgebeer, RMI Shaw, CE Smith, SG Smith, JC Spanswick, G Thomas, R Thomas, T Thomas, MC Voisey, L Walters, DBF White, PJ White, HM Williams ac RE Young = **35 Pleidlais**

Yn Erbyn:

Y Cynghorydd A Pucella = **1 Bleidlais**

Ymatal:

Y Cynghorwyr M Clarke, N Clarke, SK Dendy, T Giffard, A Hussain, B Jones, KL Rowlands, R Stirman, E Venables, S Vidal, KJ Watts, C Webster, A Williams a J Williams = **14 Pleidlais**

O ganlyniad i'r bleidlais uchod,

CYTUNWYD: Y byddai'r Cyngor yn derbyn:-

- Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2021-22 yn cynnwys Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys 2021-22 tan 2023-24 (Atodiad A o'r adroddiad);
- Strategaeth Gyfalaf 2021-22 tan 2030-31 yn cynnwys y Dangosyddion Ariannol 2021-22 tan 2023-24 (Atodiad B);
- Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw Blynyddol (MRP) 2021-22 (Atodiad B - Atodlen A).

511. EITEMAU BRYS

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:35